



© Steven Falk

## Rheoli tir amaeth ar gyfer Peillwyr

Mae tir amaeth yn darparu amrywiaeth eang o gynefinoedd a nodweddion sy'n fuddiol i beillwyr. Gall sicrhau bod y nodweddion hyn yn cael eu rheoli'n dda a'u cydgyssylltu â'i gilydd ar draws y dirwedd amaethyddol helpu peillwyr i symud o gwmpas yn fwy didrafferth; gan eu galluogi i gael mynediad i a pheillio cnydau a blodau gwyllt, a diogelu gwytnwch eu poblogaethau. Mae nifer o gannoedd o rywogaethau o beillwyr yn eu defnyddio, yn cynnwys glöynnod byw a gwyfynod, gwenyn, gwenyn meirch, pryfed hofran, llifbryfed, chwilog a chlêr.

### Cynefinoedd tir amaeth pwysig a dulliau i'w rheoli

Yn aml iawn mae **perthi** yn nodwedd annatod o dir amaeth. Maent yn darparu bwyd, cysgod, safleoedd gaeafu a choridorau i beillwyr symud o amgylch. Mae nodweddion eraill sy'n gysylltiedig â pherthi fel cloddiau uchel, ymylon caeau'n llawn blodau, pren marw a ffosydd, i gyd yn darparu cynefinoedd ychwanegol ar gyfer peillwyr.

- ◆ Mae'r cyfuniad o lwyni a choed sy'n blodeuo'n gynnar yn y flwyddyn a rhywogaethau sy'n dringo, fel iorwg sy'n blodeuo'n hwyr yn y flwyddyn, yn gwneud perthi'n elfen allweddol o'r dilyniant blodeuo y mae peillwyr yn dibynnu arno. Efallai y bydd nifer y blodau gwanwyn sydd ar gael yn effeithio ar nifer a thrwch y nythod cacwn gaiff eu sefydlu.
- ◆ Mae llwyni'n darparu ffynhonnell fwyd ar gyfer cyfnodau larfaol nifer o löynnod byw a gwyfynod, a gall coed hŷn gynnwys pren sy'n pydru sy'n darparu cynefin larfaol ar gyfer rhai pryfed hofran.
- ◆ Mae perthi'n darparu cysgod rhag y gwynt a lloches bwysig yn ystod cyfnodau o sychder a gwres mawr.
- ◆ Gall perthi ddarparu safleoedd nythu cysgodol a heulog ar gyfer gwenyn sy'n nythu yn y ddaear, ac yn aml byddant yn cynnwys tyllau llygod, gaiff eu hail-ddefnyddio gan gacwn.

Bydd cylchdroi'r gwaith o dorri perthi unigol ar gylchdro tair blynedd (neu fwy) yn sicrhau parhad adnoddau bwyd, gan fod y lefel blodeuo'n aml ar ei isaf am y cwpwl o flynyddoedd cyntaf wedi torri. Pan fyddwch yn plannu perthi newydd, defnyddiwch rywogaethau sy'n briodol i'r dirwedd leol a dewiswch gyfuniad fydd yn cynnig dilyniant blodeuo hir.

Gall **pentiroedd ac ymylon caeau â'r** fod yn naturiol flodeuog; yn enwedig ar briddoedd calchog neu dywodlyd. Ble fo'r gymuned flodeuo bresennol o safon dda dylid ei chadw, gan y bydd peillwyr yn rhyngweithio'n gryfach gyda blodau brodorol.

- ◆ Argymhellir ymylon llawn blodau heb eu haredig sy'n 5 metr o led, o leiaf. Ni ddylid torri'r rhain tan ar ôl blodeuo'r hydref, a dylid clirio'r torion i gyd.
- ◆ Gall ymylon blodeuog symud gyda'r cylchdro cnydau, ond dylid anelu i ddarparu'r un faint o gynefin ar draws y dirwedd (dim mwy na 500 metr rhwng clytiau).
- ◆ Gall ymylon parhaol elwa o ddigroeni achlysurol, er mwyn cynnal amrywiaeth y planhigion blodeuo.

Gall hadu ymylon gyda chymysgeddau artiffisial ddarparu porthiant hanfodol ar gyfer diwedd yr haf / dechrau'r hydref. Dylai cymysgeddau gynnwys amrywiaeth o rywogaethau planhigion brodorol a brodoredig er mwyn annog amrywiaeth o beillwyr. Mae'n well peidio â dibynnu'n llwyr ar blanhigion fel *Phacelia*, allai ond bod o fudd i ystod gyfyngedig o beillwyr.



Amranwen, ysgall ac efwr sy'n gyfeillion i'r peillwyr

Mae'r bengaled, penrhudd, pysen-y-ceirw a llygad-llo mawr i gyd yn dda ar gyfer peillwyr. Fydd y mwyafrif o gymysgeddau artiffisial ddim yn dechrau blodeuo tan fis Mehefin a dylid defnyddio'r rhain i gyfannu, yn hytrach na disodli blodau gwyllt sy'n digwydd yn naturiol yn y gwanwyn.



Stribyn o ysgallen y maes

Gall **cnydau** fel rêp had olew, tafod yr ych, llin, ffa a lafant fod yn ffynonellau pail a neithdar pwysig ar gyfer gwenyn a phryfed yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf.

- ◆ Gall hau rêp had olew yn y gwanwyn, yn hytrach na'r gaeaf, ymestyn ei werth ar gyfer peillwyr sy'n casglu porthiant ymlaen i ganol yr haf; gan helpu i gynnal eu niferoedd.
- ◆ Mae blodau gwyllt fel yr amranwen, marddanadl, pabïau a thrilliw mewn cnydau'n darparu ffynonellau bwyd ychwanegol, a gallant ddarparu blodau diwedd haf gwerthfawr rhwng y cynhaeaf a'r cyfnod aredig.
- ◆ Yn aml bydd cnydau porthiant cymysg, hadau adar gwyllt a 'bumblebird' yn cynnwys planhigion bwyd gwerthfawr ar gyfer peillwyr, fel codlysiau, bresych, tafod yr ych a rhuddygl porthi.

Mae cronfa gynyddol o dystiolaeth ar gael sy'n dangos nad yw'r defnydd o neonicotinoids i reoli plâu o bryfed brin yn helpu gyda chynnyrch cnydau, ond maent yn cael effaith difrifol ar beillwyr a'r amgylchedd yn fwy cyffredinol; gan lygru pail blodau gwyllt a chrynhoi'n y llwch ar wyneb caeau â.

Bellach mae **gweirgloddiau** yn llawn blodau gwyllt a gweiriau brodorol yn brin yng nghefn gwlad, ac wedi eu disodli gan laswelltiroedd sydd wedi eu gwella.

Gall yr ystod o flodau gwyllt a geir mewn dolydd sydd heb eu gwella ddarparu ar gyfer rhywogaethau'n amrywio o gacwn tafod hir i bryfed hofran mân, mân.

- ◆ Dylid bob amser warchod dolydd sy'n llawn blodau gwyllt rhag aredig, chwistrellu neu wrteithio.
- ◆ Bydd gohirio torri gwair tan ddiwedd yr haf yn ymestyn gwerth porthi ar gyfer peillwyr, yn ogystal â sicrhau lefel well o gynhyrchu hadau o flodau'r ddôl.
- ◆ Gall gadael clytiau neu ymylon heb eu torri greu twmpathau ac ardaloedd o flodau tal sy'n darparu lloches ar gyfer infertebratau a chyfleoedd i aeafu mewn coesynnau prenaidd.

Gellir adfer neu greu dolydd gyda gwair gwyrdd neu hadau a gasglwyd o ddôl leol, neu trwy ddefnyddio cymysgeddau o hadau brodorol a phlanhigion plwg sy'n addas i'r math o bridd a'r dirwedd leol. Gall cyflwyno'r gribell felen helpu i gadw gweiriau trechol dan reolaeth, ac yn aml iawn bydd cacwn yn ymweld â'r blodau.

Gall **tir pori parhaol** fod yn ffynhonnell dda o flodau, o friallu Mair, llygad y dydd a blodyn-y-menyn yn y gwanwyn ymlaen i'r bengaled, ysgall a milddail ar ddiwedd yr haf. Gall hefyd gynnwys nodweddion fel twmpathau morgrug sy'n darparu safleoedd bridio ar gyfer rhai rhywogaethau o löynnod byw a phryfed hofran.

- ◆ Fydd llysiâu'r gingroen yn fawr o fygythiad i dda byw dan amodau pori arferol ac, ynghyd ag ysgall, mae'n cynnig porthiant pwysig ar gyfer peillwyr y dylid darparu ar eu cyfer, ble bynnag y bo modd.
- ◆ Bydd larfa llawer o beillwyr yn datblygu mewn baw anifeiliaid.

Bydd lefelau pori'n cael effaith mawr iawn ar gyfoeth blodau ac amrywiaeth strwythurol tir pori; dwy ffactor bwysig sy'n effeithio ar beillwyr. Gall patrymau pori ysgafnach, pori cylchdro a thynnu da byw oddi ar y tir yn yr haf, i gyd arwain at amodau blodeuo gwych ar gyfer peillwyr. Bydd porfa glaswelltir sydd â phlanhigion o wahanol daldra, clytiau o dir moel a rhywfaint o 'wellt' neu 'sbwriel' planhigion yn darparu cynefinoedd ar gyfer ystod ehangach o rywogaethau o beillwyr. Mae'n bwysig cadw rhywfaint o'r strwythur porfa yma trwy fisoedd y gaeaf, gan ddarparu safleoedd gaeafu ar gyfer peillwyr a bywyd gwyllt arall.



Bydd dôl blodau gwyllt newydd yn helpu i chwyddo poblogaethau o beillwyr, fel y wenynen unig *Colletes daviesanus* a'r Gardwenynen gyffredin



Mae **cynefinoedd gwlybion** fel ffosydd, pyllau, cyrsiau dŵr a thryddiferiadau'n darparu blodau gwlyptir gwerthfawr ynghyd â chynefin larfaol ar gyfer peillwyr, fel pryfed hofran. Gall erwain, helyglys, mintys y dŵr a llysiau'r-mil-wr coch, i gyd ddarparu porthiant yn yr haf.

- ◆ Dylid gwneud gwaith rheoli ffosydd a phyllau mewn adrannau, gan sicrhau bod adnoddau a lloches ar gael bob amser ar gyfer yr infertebratau sy'n byw ynddynt.
- ◆ Gall ôl sathru da byw greu ardaloedd defnyddiol o dir moel ar gyfer rhai infertebratau, ond dylid osgoi gadael i dda byw gael mynediad i ymylon cyrsiau dŵr yn eu cyfanrwydd.
- ◆ Dylid creu cynefinoedd fel pyllau neu byllau bas ar ffermydd ble nad ydynt ar gael eisoes.
- ◆ Gall coed glan-dŵr ddarparu ffynonellau pwysig o fwyd a phren marw, ond dylid eu hatal rhag cysgodi'r dŵr i gyd.

Gall **caeau gwndwn** gynhyrchu sioe odidog o flodau gwylt, fel marddanadl, dant y llew, ysgall ac wmbeliffer, sy'n sicrhau blodau o'r gwanwyn tan ddechrau'r hydref. Gall ardaloedd gwndwn fod yr ardaloedd mwyaf cyfoethog o ran peillwyr ar adegau penodol o'r flwyddyn a dylid eu cynnwys yn y system ffermio ble bynnag y bo modd.



Picture caption here?

Bydd **codlysiâu tymor byr a phorfa llawn blodau** yn darparu buddiannau llawer mwy i beillwyr na phorfa glaswellt yn unig. Mae codlysiâu'n arbennig o bwysig ar gyfer cacwn, tra caiff milddail, llyriad yr ais a'r bengaled eu defnyddio gan beillwyr eraill.



Picture caption here?

Gall **nodweddion eraill** fel ffyrdd fferm, ymylon cyrsiau dŵr, hen chwareli a phyllau i gyd ddarparu adnoddau ar gyfer peillwyr. Ddylen ni fyth tanbriso pwysigrwydd planhigion cyffredin fel marddanadl, blodyn-ymenyn, meillion ac wmbelifferau. Gall amrywiaeth eang o adnoddau blodeuol gynyddu'r nifer a'r amrywiaeth o beillwyr yn y dirwedd yn sylweddol iawn.

Gall cynefinoedd coediog, o goed unigol i leiniau o goetir, ddarparu ffynonellau o bren marw a ddefnyddir fel lleoliadau nythu gan lawer o wenyn a gwenyn meirch unig sy'n ymweld â blodau, yn ogystal â darparu ffynonellau gwerthfawr o fwyd yn y gwanwyn.

Gall cloddiau a ffosydd gael eu defnyddio fel safleoedd nythu gan wenyn; yn enwedig pan maent yn cynnwys llethrau cynnes sych, heb fawr o lystyfiant. Gall cloddiau amddiffyn rhag llifogydd sy'n bodoli eisoes fod yn nodweddion arbennig o werthfawr a chynnal rhai o'n cymunedau cacwn cyfoethocaf.

## Natur dymhorol blodeuo


Mae tir amaeth yn arddangos elfen dymhorol gref a bydd amrywiaeth a chyfuniad yr adnoddau blodau, ynghyd ag argaeledd cynefinoedd ar gyfer bridio a gaeafu, yn effeithio ar y gymuned peillwyr sy'n bresennol.

**Gwanwyn** - mae llwyni a choed sy'n blodeuo yn y gwanwyn yn hanfodol ar gyfer peillwyr cynnar, yn cynnwys breninesau cacwn a gwenyn meirch, glöynnod byw, gwyfynod, a llawer o bryfed a chwilod. Fel arfer bydd helyg deilgron a choed coeg-geirios yn dechrau blodeuo o fis Mawrth, gyda'r drain du, coed ceirios du, afalau surion a gellyg gwyllt yn dod i benllanw ym mis Ebrill. Bydd criafol, drain gwyn, ysgaw, cwyras a llwyni mwyar duon yn dechrau blodeuo ym mis Mai. Gall llwyni sy'n blodeuo mewn lleoliadau heulog, cysgodol ddenu niferoedd mawr iawn o beillwyr.

Bydd blodau fel marddanadl, dant y llew a blodau-ymenyn yn dechrau ymddangos yn ystod mis Ebrill a gall eu presenoldeb wrth ymyl cnydau sy'n blodeuo, fel rôp had olew, hybu peilliad cnydau. Wrth i'r gwanwyn fynd yn ei flaen bydd planhigion fel gorthyfail, cyfardwf a bresych yn darparu porthiant pwysig, a pho fwyaf yw niferoedd ac amrywiaeth y blodau, y mwyaf o beillwyr y byddwch yn debyg o'u gweld.

**Haf** – mae blodau gwyllt fel codlysiau, blodau cyfansawdd ac wmbelifferau, ynghyd â llwyni fel ysgaw, llwyni mwyar a rhosod yn ffynonellau bwyd allweddol ar gyfer peillwyr yn ystod misoedd yr haf. Gall clystyrau o efwr, cribau'r-pannwr ac ysgall fod yn neilltuol o bwysig yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf, ac ar yr un adeg o'r flwyddyn gwelir planhigion dringo sy'n blodeuo, fel barf yr hen wâr, bloneg y ddaear a thaglys.

**Hydref** – bydd y mwyafrif o flodau gwyllt yn dechrau darfu yn ystod mis Awst ond bydd rhai, fel ysgallen y maes, milddail, clafrllys a'r llaethysgallen yn parhau tan yr hydref; gan ddenu nifer dda o beillwyr sy'n hedfan yn hwyr yn y flwyddyn. Yn aml iawn, iorwg yw blodyn pwysicaf yr hydref; gan ddenu niferoedd mawr iawn o löynnod byw, gwenyn a phryfed, y bydd rhai ohonynt yn gaeafu ar ffurf oedolion, sy'n golygu bod y wledd olaf yma'n hanfodol.



Picture caption here?

## Peillwyr prin

Bydd amryw o beillwyr prin, a rhai sydd dan fygythiad, yn ymddangos ar dir amaeth, weithiau fel ymwelwyr, ond weithiau fel trigolion sy'n bridio. Ble gwyddom fod y rhywogaethau hyn yn bridio mae'n bwysig dynodi unrhyw anghenion penodol fel planhigion bwyd neu safleoedd nythu, a chynnwys y rhain mewn penderfyniadau rheoli tir.

Mae rhai peillwyr prin y gwyddom eu bod i'w cael ar dir amaeth yn cynnwys:

Gwenyn: *Andrena bucephala*, *A. hattorfiana*, *A. marginata*, *A. pilipes*, *Bombus distinguendus*, *B. humilis*, *B. muscorum*, *B. ruderatus*, *B. ruderarius*, *B. soroensis*, *B. sylvarum*.

Glöynnod byw (**get BC to check**): glesyn Adonis, glesyn sialc, gwibiwr llwyd, gwibiwr brith, britheg y gors, argws brown y gogledd, gwibiwr arian, glesyn serenog

Pryfed: *Myolepta potens* a *Pocota personata* (ar goed hynafol), *Stratiomys longicornis* a *Hybomitra rustica* (mewn ffosydd ar gorsydd pori arfordirol), *Villa cingulata* (ar dwynder).



## Darllen pellach

- Gwefan Cyngor i Ffermydd Buglife: [www.buglife.org.uk/farmland-advice](http://www.buglife.org.uk/farmland-advice)
- Buglife Managing farmland habitats for invertebrates (pedair taflen: Grassland, Woodland, Hedgerows and Cereal Field Margins, and Ponds and Ditches. Ar gael arlein: [www.buglife.org.uk/farmland-advice](http://www.buglife.org.uk/farmland-advice)
- Buglife (2013) Promoting habitat mosaics for invertebrates – Chalk downland. Ar gael arlein: [www.buglife.org.uk/farmland-advice](http://www.buglife.org.uk/farmland-advice)
- Buglife (2013) Promoting habitat mosaics for invertebrates – Coastal grazing marsh. [www.buglife.org.uk/farmland-advice](http://www.buglife.org.uk/farmland-advice)
- Farm Wildlife: [www.farmwildlife.info](http://www.farmwildlife.info)
- Campaign For The Farmed Environment. Gwe-borthol ymgyrch peillwyr: [www.cfeonline.org.uk/home](http://www.cfeonline.org.uk/home)
- DEFRA Agriculture - tailored advice on managing land for pollinators. Ar gael arlein: [www.wildlifetrusts.org/sites/default/files/6192\\_defra\\_info\\_sheet\\_agriculture\\_final\\_with\\_organic.pdf](http://www.wildlifetrusts.org/sites/default/files/6192_defra_info_sheet_agriculture_final_with_organic.pdf)
- Crofts, A. a Jefferson, R.G. 1999 Lowland Grassland Management Handbook. English Nature/The Wildlife Trusts.
- Gardiner, T., Picher, R. a Wade, M. 2015 Sea Wall Biodiversity Handbook. RPS
- Gwefan Hedgelink UK: <http://hedgelink.org.uk/index.php>
- Kirby, P. 1992. Habitat Management for Invertebrates: a practical handbook. RSPB.
- Gwe-borthol Cyngor i Ffermwyr yr RSPB: [www.rspb.org.uk/our-work/conservation/conservation-and-sustainability/farming/advice/](http://www.rspb.org.uk/our-work/conservation/conservation-and-sustainability/farming/advice/)

Cydnabyddiaeth ffotograffiaeth © Steven Falk â Buglife

buglife.org.uk 01733 201210 @buzz\_dont\_tweet

Buglife The Invertebrate Conservation Trust is a registered charity at The Lindens, 86 Lincoln Road, Peterborough, PE1 2SN

Registered charity No: 1092293, Scottish Charity No: SC040004, Company no. 4132695